

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1230
Ein cyf/Our ref JMEWL/11596/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Government.Committee.Business@llyw.cymru

18 Tachwedd 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr ar 5 Tachwedd ac am y cyfle i roi fy sylwadau cychwynnol ar ddeiseb i osod diffibriliwr ym mhob ysgol yng Nghymru at ddefnydd y cyhoedd.

Rwy'n cydnabod pa mor effeithiol y gall diffibrilwyr fod a'r effaith y gallant ei chael ar siawns rhywun sy'n dioddef ataliad y galon o oroesi. Gall CPR (adfywio cardio-pwlmonaidd) cynnar a defnyddio diffibriliwr yn brydlon gynyddu siawns unigolyn o oroesi ataliad y galon. Mae Llywodraeth Cymru am weld cyflenwad digonol o ddiffibrilwyr ledled y wlad, yn ogystal â mwy o bobl sy'n teimlo'n hyderus i'w defnyddio ac i wneud CPR. I gyflawni hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ein Cynllun ar gyfer Ataliad y Galon y Tu Allan i'r Ysbyty, a ffurfiodd Bartneriaeth Achub Bywyd Cymru. Rydym wedi darparu cyllid i ymgyrch Achub Bywyd Cymru, sy'n gweithio gyda sefydliadau ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd hyfforddiant CPR a'r defnydd o ddiffibrilwyr drwy'r ymgyrch 'Cyffwrdd â Bywyd'. Mae rhan o'r gwaith hwn yn ymwneud â rheoli diffibrilwyr heddiw ac yn y dyfodol; oherwydd ar hyn o bryd mae diffibrilwyr yn cael eu prynu gan amrywiol sefydliadau, gan gynnwys elusennau a grwpiau cymunedol.

Er y gallai fod yn briodol i ddiffibrilwyr gael eu lleoli y tu allan i adeiladau ysgolion, efallai nad dyma'r opsiwn gorau bob tro, ac rwy'n credu ei bod yn bwysicach i'r offer gael ei leoli mewn ardal a nodwyd yn lleol fel yr un fwyaf hygyrch i'r cyhoedd.

Yn ogystal, mae mapio diffibrilwyr yn bwysig iawn i sicrhau bod y rhai sydd eu hangen yn gallu dod o hyd iddynt yn gyflym. Dyma pam rwy'n croesawu camau i annog cymunedau a sefydliadau sydd eisoes â diffibrilwyr i'w cofrestru ar The Circuit ac rwy'n falch o weld bod dros 5,420 wedi'u cofrestru. Mae ychydig llai na 50 y cant o'r diffibrilwyr hyn wedi'u cofrestru â gwarcheidwaid sy'n sicrhau eu bod yn barod i'w defnyddio, gan gynnal gwiriadau rheolaidd ar fatris a phadiau. Mae teclyn mapio ar-lein ar gael i'r cyhoedd yma: [GIG 111 Cymru - Gwasanaethau yn agos atoch chi \(wales.nhs.uk\)](https://www.gig111.wales)

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn olaf, rwy'n falch o nodi bod £500,000 arall yn cael ei neilltuo eleni ar gyfer prynu mwy o ddiffibrilwyr ledled Cymru ar gyfer sefydliadau a grwpiau cymunedol. Mae'r broses ymgeisio ar gyfer gwneud cais am un o'r diffibrilwyr a ariennir gan Lywodraeth Cymru bellach ar agor ac mae rhagor o fanylion ar gael yma: <https://lyw.cymru/gwnewch-gais-am-ddiffibriliwr-mynediad-cyhoeddus-cymunedol>

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, consisting of a circular mark on the left and a series of wavy lines on the right, followed by a short horizontal stroke.

Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language